YSGOL CALON CYMRU

# Paratoi i drosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd

2021

# Fy Ysgol Newydd




Ffeindiwch lun neu ffoto o'ch ysgol newydd a gludwch e yn y fan hon.

Cyn symud I'r Ysgol Uwchradd, mae'n syniad da ffeindio cymaint o wybodaeth ag y medrwch cyn i chi ddechrau.

Enw'r Ysgol yw ______________________________________________

Y cyfeiriad yw ______________________________________________________

_________________________________________________________________

Y rhif ffôn yw _______________________________________________

Y cyfeiriad e-bost yw __________________________________________________

Cyfeiriad y wefan yw _________________________________________________

Enw'r Pennaeth yw __________________________________________

Enw fy Arweinydd Cynnydd yw___________________________________________

# Mynd i'r Ysgol Uwchradd...

## Sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?




Defnyddiwch ddau amlygwr lliw gwahanol. Amlygwch yr ymadroddion rydych yn **edrych ymlaen atynt** mewn un lliw a defnyddiwch liw gwahanol ar gyfer y rheiny rydych yn **pryderu amdanynt**.

| | |
|---|---|
| Gwneud ffrindiau newydd | Dysgu amserlen newydd |
| Amser cinio | Cymryd cawod |
| Cael gwisg ysgol wahanol | Bod yn brydlon |
| Ffindio fy ffordd o gwmpas | Amser egwyl |
| Cyrraedd yr ysgol | Dysgu pynciau newydd |
| Cyfarfod ag eraill yr un oed â fi | Ymuno â chlybiau |
| Bod gyda ffrindiau | Rheolau'r ysgol |
| Gwaith Cartref | Cyfarfod fy nhiwtor newydd |
| Cyfarfod fy athrawon newydd | Medru gwneud y gwaith |
| Bod gyda disgyblion hŷn | Newid ar gyfer Chwaraeon / Addysg Gorfforol |

# Dull canolbwyntio ar ateb

Meddyliwch am rywbeth sy'n eich gofidio ynglŷn â symud i'r Ysgol Uwchradd.








Beth yw'r gofid? ______________________________________________

Ar raddfa 0 i 10 pa mor ofidus ydych chi? ___________________________

Meddyliwch am adeg cynt pan oeddech yn ofidus _________________________

______________________________________________________________

Beth helpodd chi i symud lawr y raddfa yr adeg honno? ____________________

______________________________________________________________

Ble ar y raddfa hoffech chi deimlo mewn mis, 6 mis ac mewn blwyddyn? _______

Beth fyddai'n eich helpu i symud un pwynt yn nes? _______________________

______________________________________________________________

Beth fydd wedi newid fel eich bod yn gwybod eich bod yn llai gofidus __________

______________________________________________________________




# Cwestiynau Ysgol Uwchradd

| Cwestiynau ynglŷn â sut y mae'r Ysgol yn gweithio | Ateb |
|---|---|
| Ble mae'r Ysgol? | |
| Sut fydda i'n cyrraedd yno? | |
| Pa amser fydd rhaid i fi godi? | |
| Faint o'r gloch mae'r Ysgol yn dechrau / gorffen? | |
| Faint o'r gloch mae egwyl ac amser cinio? | |
| Pa fath o fwyd sy'n cael ei werthu?<br><br>Beth yw cost pethau? | |
| Pa fyrbrydau allwch chi eu prynu? | |
| Beth mae pobl yn ei wisgo i'r Ysgol? | |
| Ble alla i brynu hyn? | |
| Pa git chwaraeon fydd angen arna i? | |


# Fy ngwisg ysgol





Ffeindiwch lun o'r wisg ysgol y byddwch yn ei gwisgo. Gallwch edrych ar lyfryn yr ysgol, neu gallwch brintio un o'r wefan a tynnwch lun/lliwich yr eitemau dillad ar y ffigur uchod.

# Fy nghit Addysg Gorfforol






Gwnewch yn siŵr eich bod yn prynu bag a all ddal ffolderi A4, gwerslyfrau, cyfarpar a dylai fod yn gysurus i'w gario.

Ac eto ar gyfer y cit Addysg Gorfforol.

# Enghraifft o brisiau prydau bwyd yr Ysgol Uwchradd

**Hefyd ar gael mae Tatws drwy'u Crwyn gyda Llenwadau Amrywiol, Pasta fel dewis amgen i Garbohydrad, Salad, a Ffrwythau Ffres a Dŵr.** Gallwch hefyd ddarparu bwydlenni fegan a deietiau arbennig yn ôl y gofyn . V = Addas i ddeiet Fegan

**Yr wythnos sy'n dechrau: 2il Mawrth, 23 Mawrth**

| Wythnos 2 | Prif Bryd | Pryd Llysieuol | Carbohydrad | Pryd ochr | Pwdin |
|---|---|---|---|---|---|
| Llun | Gril Cig Eidion mewn Bap | 'Country Bake' Caws a Llysiau | Tatws perlysiau wedi'u deisio | Ffa pôb | Ffrwythau ffres neu Bwdin Reis gyda Jam |
| Mawrth | Cyw iâr gyda Stwffin Saets a Winwns a Grefi | Quorn gyda Stwffin | Tato pwtsh neu datws wedi'u berwi | Moron a Broccoli ffres | Ffrwythau ffres neu Gacen Gaws a Sudd Ffrwythau |
| Mercher | Spaghetti Bolognese cartref | Bolognese Llysieuol Cartref (V) | Spaghetti a Bara Garlleg | India-corn | Ffrwythau ffres neu Sbwng Siocled a Mandarin a Saws Siocled |
| Iau | Porc Rhost gyda thatws rhost, saws afalau a Grefi | Rhost Quorn | Tato pwtsh neu datws wedi'u berwi | Moron a Ffa Gwyrdd ffres | Ffrwythau ffres neu Fflapjac, dogn o resins a Llaeth |
| Gwener | Pysgodyn mewn cytew neu gyri Cyw Iâr Siop Sglodion | Omled | Sglodion neu Basta neu Reis | Ffa pôb neu Bys, Sôs Coch | Ffrwythau ffres neu Gaws a Bisgedi |

## Prisiau

| **Prif bryd:** | |
|---|---|
| **Yn cynnwys pwdin** | Heb bwdin |
| Disgybl £2.55 / Oedolyn £4.50 | Disgybl £2.15 / Oedolyn £3.80 |

| **Egwyl y bore** | **Disgybl / Oedolyn** | **Potiau Grad and Go** | **Disgybl / Oedolyn** | **Taten drwy'i chroen** | **Disgybl / Oedolyn** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tost** | **31c / 37c** | **Pasta King** | **£1.75 / £2.10** | **Taten drwy'i chroen** | **£1.50 / £1.80** |
| **Cramwythen** | **40c / 50c** | **Pot Cyri a Reis** | **£1.75 / £2.10** | **Dogn taeniad braster isel** | **12c / 14c** |
| **½ Cacen De** | **40c / 50c** | **Pot Pasta Plaen / Reis** | **£1 / £2,20** | **Taten drwy'i chroen Un Llenwad** | **£1.60 / £1.92** |
| **½ Bagel gyda Menyn Garlleg** | **57c / 68c** | **Caws gratedig** | **45c / 54c** | **Taten drwy'i chroen Caws a Ffa** | **£2 / £2.40** |
| **½ Bagét Cig Moch** | **£1 / £1.20** | **Salad** | **Disgybl/Oedolyn** | **Taten drwy'i chroen Caws a Coleslaw** | **£2 / £2.40** |
| **½ Bagét Selsig Llysieuol** | **£1 / £1.20** | **Bocs Salad** | **£1.10 / £1.32** | **Taten drwy'i chroen Caws a Thiwna** | **£2 / £2.40** |
| **Wrap haenog** | **95c / £1.14** | **Bocs Salad Twrci** | **£1.60 / £1.92** | **Ffrwythau, Iogwrt a Hufen Iâ** | **Dysgybl / Oedolyn** |
| **Sleisen Pizza 14s** | **65c / 78c** | **Bocs Salad Ham** | **£1.60 / £1.92** | **Eitem o ffrwyth ffres** | **55c /66c** |
| **½ Croen Tato Llwythog** | **95c / £1.14** | **Bocs Salad Tiwna** | **£1.60 / £1.92** | **Bag Ffrwythau 100g** | **£1 / £1.20** |
| **Basged Bara** | **Disgybl/ Oedolyn** | **Bocs Salad Falafel** | **£1.60 / £1.92** | **Iogwrt Ffrwythau** | **60c / 72c** |
| **Brechdan Safonol** | **£1 / £1.20** | **Bocs Salad Caws** | **£1.60 / £1.92** | **Callipo** | **£1 / £1.20** |
| **Brechdan Premiwm** | **£1.60 / £1.92** | **Cookies, Cacennau a Phwdinau** | **Disgybl / Oedolyn** | **Llaeth Bach** | **62c / 74c** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sub Roll | £1.80 / £2.16 | Pwdin y Dydd | 85c / £1.02 | Twba Hufen Iâ | 55c / 66c |
| Bap 5" wedi llenwi | £1.50 / £1.80 | Cookies | 55c / 66c | Diodydd Poeth | Disgybl / Oedolyn |
| Bagét wedi'i llenwi | £2 / £2.40 | Teisen frau | 55c / 66c | Te / Coffi | 60c / 72c |
| ½ Bagét wedi'i llenwi | £1 / £1.20 | Cacennau unigol | 95c / £1.14 | Siocled Poeth | 60c / 72c |
| Panini | £2,20 / £2.64 | Picen fach | 50c / 60c | Diodydd Oer | Disgybl / Oedolyn |
| ½ Panini | £2,20 / £2.64 | Cacennau a Bisgedi brand | Disgybl / Oedolyn | Dŵr Radnor Hills | 55c / 66c |
| Wrap wedi'i llenwi | £1.70 / £2.04 | Fflapjac | 60c / 72c | Llaeth 1 peint | 95c / £1.14 |
| Ffa Pôb ar Dost | 91c / £1.09 | Cookies | 60c / 72c | Sudd Tetra 200ml | 55c / 66c |
| Manion Ychwanegol | Disgybl / Oedolyn | Myffins bach | 60c / 72c | Radnor Fizz 330ml | 75c / 90c |
| Cwdyn saws | 12c / 14c | Torth sinsir | 60c / 72c | Radnor Fruit 330ml | 90c / £1.10 |
| Cytleri Tafladwy | 5c / 6c | | | Ysgytlaeth | £1 / £1.20 |

# Rheoli Arian

Yn yr ysgol uwchradd chi fydd yn gyfrifol am reoli eich arian yn ddyddiol ac yn wythnosol. Cofiwch mai'r system Parent Pay sy'n cael ei ddefnyddio i brynu bwyd, felly bydd dim angen i chi ddod ag arian gyda chi i'r ysgol. Serch hynny, bydd rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych ddigon o arian yn eich cyfrif Parent Pay os ydych yn penderfynu prynu prydau ysgol. Does dim rhaid i chi brynu bwyd o ffreutur yr ysgol – gallwch, wrth gwrs, ddod â phecyn bwyd gyda chi i'r ysgol.



Y swm arian sydd gennyf bob wythnos yw £_____. _____

Rhaid gwario peth o'r arian hwn yn ddyddiol. Cyfrifwch faint fydd ei angen arnoch bob dydd gan ddefnyddio'r prisiau uchod, a gweithiwch allan y swm dyddiol ac wythnosol.

| **Eitemau i'w prynu** | **Llun** | **Mawrth** | **Mercher** | **Iau** | **Gwener** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byrbryd | | | | | | |
| Cinio | | | | | | |
| **Cyfanswm dyddiol** | | | | | | |
| | | | | | **Cyfanswm yr Wythnos** | |

Trafodwch y fwydlen a ddewisoch gyda'ch athro neu eich rhieni.

- Ydych chi wedi dewis amrywiaeth o fwyd?
- Ydych chi wedi cynnwys ffrwythau a llysiau yn eich dewisiadau?
- Ydych chi wedi dewis opsiynau iach ar gyfer leiaf 2 ddiwrnod?

# Trefn y Bore

Cyn gadael i fynd i'r Ysgol rhaid meddwl am sawl peth, gan ddechrau'r noson cynt.

**Pethau i feddwl amdanynt yn y bore.** Rhowch hwy yn y drefn gywir.





- Gwisgo
- Gwirio bod y cyfarpar cywir gyda chi yn eich bag
- Gwirio eich amserlen
- Ymolchi
- Gwirio bod eich gwaith cartref gyda chi
- Glanhau eich dannedd
- Dweud "Hwyl fawr"
- Deffro
- Bwyta eich brecwast
- Mynd i'r Ysgol

Oes yna rybweth arall?    Cynlluniwch eich trefn gydag amser bras

| Amser | Beth i'w wneud |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Trefn yn yr Ysgol

## Amserau'r Ysgol ar ddiwrnod arferol

| Mae'r Ysgol yn dechrau am: | Mae amser egwyl am: | Mae amser cinio am: | Mae'r Ysgol yn gorffen am: |
|---|---|---|---|
|  |  |  |  |
| __ __ : __ __ | __ __ : __ __ | __ __ : __ __ | __ __ : __ __ |